**Y Pwyllgor Diwylliant CC-15-01(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 24 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 10.00am-13.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Brangwyn, Abertawe |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd) – tan 11.30am

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Swyddogion**

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Michael Parkinson (Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg)

**Datganiadau o fuddiant:** Datganodd y Cadeirydd ei aelodaeth o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

Mae Rosemary Butler yn gadeirydd bwrdd cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

Mae gwraig Dafydd Wigley yn gyfrannwr amlwg at y maes celfyddydol yng Nghymru.

**Sylwadau rhagarweiniol**

Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd Cyngor Sir Penfro wedi gallu mynychu'r cyfarfod a dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y Cyngor yngl•n â hynny.

Eglurodd mai dyma drydedd sioe deithiol y Pwyllgor yngl•n â'i adolygiad o'r Gymraeg. Byddai sioeau teithiol pellach yng Nghasnewydd ar 15 Tachwedd, ym Mhontypridd ar 23 Ionawr ac yng Nghwm Gwendraeth ar 6 Chwefror.

Dywedodd wrth yr aelodau fod Pwyllgorau eraill yn ystyried yr adolygiad fel a ganlyn:

- Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, y prynhawn yma (24ain);

- Y Pwyllgor Datblygu Economaidd, ar 16 Tachwedd yn Wrecsam

- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, ar 7 Tachwedd

- Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 16 Ionawr

- Ni threfnwyd dyddiad eto i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried yr adolygiad, er eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y Flwyddyn Newydd

- Bydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn dechrau ar eu hadolygiad eu hunain o'r ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg statudol, y mis nesaf.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r cyhoedd fod amser o hyd i gyfrannu at yr adolygiad: y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig yw 30 Tachwedd a bydd tystiolaeth lafar yn cael ei derbyn hyd ganol Mawrth y flwyddyn nesaf.

Yn olaf, cyflwynodd Adam Peat, y Cyfarwyddwr Gr•p ar gyfer Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant. O ganlyniad i ad-drefnu diweddar ar gyfrifoldebau ymhlith y Cyfarwyddwyr Gr•p, mae'r portffolio Diwylliant bellach yn un o'i gyfrifoldebau ef.

**<u>Eitem 1: Adolygiad y Pwyllgor o’r Gymraeg</u>**

**<u>Papur: CC-15-01(p’au.1, 3, 4 a 6)</u>**

**Dinas a Sir Abertawe**

Cynrychiolwyr:

Bob Cuthill, Rheolwr, Yr Uned Strategaethau Corfforaethol

Llio Elgar

Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol yn y cyflwyniad:

- Bu’r Cyngor yn gweithredu ei gynllun iaith Gymraeg ei hun ers pedair blynedd ac mae’n ddibynnol iawn ar fedrau iaith ac ewyllys da ei weithwyr a’u parodrwydd i ddefnyddio’r iaith.

- Mae angen mawr i hyrwyddo’r iaith y tu allan i’r gweithle fel bod pobl yn barod i ddefnyddio’r sgiliau iaith sydd ganddynt yn y gweithle.

- Mae angen strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg barhaus ac addysg oedolion fel y gall pobl wella eu sgiliau iaith yn y meysydd gwaith neu weithgaredd sy’n berthnasol iddynt.

- Un o’r camau mwyaf cadarnhaol y gellir eu cymryd o ran cynnal yr iaith yw ceisio diogelu sylfeini economaidd y cymunedau lle siaredir y Gymraeg gan ganran sylweddol o’r boblogaeth. Mae cynlluniau adfywio economaidd yn ffordd gadarnhaol o gadw’r boblogaeth sy’n weithredol yn economaidd, gan sicrhau manteision o ran cynaladwyedd cymdeithasol.

- Mae sgiliau iaith cyn bwysiced â chymwysterau addysgol a galwedigaethol ac eto nid oes gennym gorff i fonitro’r cyflenwad cenedlaethol o sgiliau a hyfforddiant iaith Cymraeg. Ar hyn o bryd mae dewis y Cyngor o ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith yn gyfyng oherwydd bod y gronfa o siaradwyr Cymraeg mor fach.

- Mae angen Ymgyrch Genedlaethol i gydnabod gwerth yr iaith i economïau lleol.

- Dylid ffurfio academi iaith annibynnol fel ysgol ragoriaeth i’r Gymraeg.

- Dylid safoni’r iaith ar draws Cymru. Dylai’r Cynulliad gymryd y cyfrifoldeb dros yr iaith a

phenodi corff addas i gynhyrchu rhestri iaith a fyddai'n datblygu.

- Mae angen mwy na rhyddid cyfartal i ymgysylltu ar siaradwyr Cymraeg i sicrhau bod hen furiau cymdeithasol yn cael eu chwalu a bod yr iaith yn cael ei defnyddio y tu allan i beuoedd arferol addysg a bywyd teuluol.

- Rhaid i'r Cynulliad ymrwymo i gynnal ymgyrch godi ymwybyddiaeth hirdymor i hyrwyddo'r Gymraeg. Rhaid i'r Cynulliad hefyd hawlio'r iaith i holl bobl Cymru.

- Cred y Cyngor y dylai'r sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, fel banciau ac archfarchnadoedd, orfod ymrwymo i wasanaeth iaith sylfaenol.

- Mae cymunedau naturiol Gymraeg eu hiaith yn rhan o wneuthuriad cymdeithasol amrywiol Cymru. Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw cynnal archwiliad o sefyllfa cymunedau gwledig neu gymunedau sy'n dirywio.

- Rhaid i'r Cynulliad greu cynllun cenedlaethol newydd i'r iaith a buddsoddi arian sylweddol i greu hinsawdd mwy ffrwythlon.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn am Addysg Gymraeg yn Abertawe, dywedodd Mr Cuthill na allai ateb dros yr Adran Addysg, ond y byddai'n gofyn i'r Adran honno gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Cytunodd hefyd i ddarparu manylion pellach am y cynlluniau hyfforddi Cymraeg a gâi eu gweithredu o fewn y Cyngor.

- Wrth ateb cwestiwn am ddarpariaeth gwasanaethau hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg, atebodd Mr Cuthill mai polisi'r Cyngor oedd penodi gweithwyr Cymraeg eu hiaith lle bynnag yr oedd modd mewn ardaloedd lle yr oedd cymunedau â mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg.

- Wrth egluro ei bwynt ynghylch ffurfio academi iaith annibynnol, credai Mr Cuthill nad oedd gwahaniaeth mawr ymhle y lleolid academi o'r fath. Y pwynt allweddol am sefydliad o'r fath fyddai ei bwerau annibynnol i archwilio, a mwy o ddemocratiaeth.

- Gallai safoni'r iaith fod yn gysylltiedig â'r academi. Roedd problem terminoleg safonol yn faes allweddol yr oedd angen ei oresgyn. Mae gan Gymru broblem hefyd o ran deddfwriaeth, sef bod deddfwriaeth yn cael ei hystyried a'i llunio yn Saesneg. Mae'n dasg anodd i'r gwasanaeth sifil gyfieithu a saernïo'r ddeddfwriaeth yn y Gymraeg.

- Mae'r Cyngor wedi creu perthynas dda â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae'n cyflwyno adroddiad monitro blynyddol iddo. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel meincnod ac adnawdd

gwerthfawr i'r Cyngor.

**Yr Athro Harold Carter**

Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol yn y cyflwyniad:

- Mynegodd yr Athro Carter fraw ynghylch y ffordd blwyfol y trafodwyd materion yn ymwneud â newid ieithyddol yn ddiweddar. Nid materion lleol i Gymru yn unig yw materion o'r fath.

- Un o'r tueddiadau sylfaenol mewn newid ieithyddol yn y blynyddoedd diwethaf fu'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd ac mewn ardaloedd eraill Seisnigedig. Bu dwy broses hanfodol yn gyfrifol am hyn: dad-ddiwydiannu a datblygiad y ddinas weithrediadol.

- Yng nghadarnleoedd y Gymraeg fodd bynnag, bu dirywiad mewn blynyddoedd diweddar. Awgryma'r dystiolaeth y bydd y nifer o gymunedau lle mae dros 80 y cant yn siarad Cymraeg, y cymunedau y mae'r Gymraeg yn iaith gyffredin iddynt, yn dal i leihau.

- Dywedodd yr Athro Carter na fyddai o anghenraid yn gwrthwynebu camau i atal dirywiad yr iaith trwy'r gyfundrefn dai a chynllunio, ond amheuai a fyddai hynny ynddo'i hun yn datrys y problemau. Teimlai fod angen i Gymru edrych ymlaen yn hytrach na cheisio ail-greu amodau a oedd yn gyffredin yn y gorffennol.

- Awgrymodd y dylai mwy o gyfleoedd addysgol fod ar gael i ganiatáu i ddwyieithrwydd ffynnu ac y dylai fod disgwyl i fewnddyfodiaid i Gymru (neu o leiaf eu plant) ddysgu Cymraeg.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Yr oedd yr Athro Carter yn cael anhawster â'r syniad y gallai amryfal ffurfiau diwylliannol gydfodoli. Yn ei farn ef, dylai newydd-ddyfodiaid i gadarnleoedd y Gymraeg dderbyn eu bod yn symud i ardaloedd sydd â'u diwylliant unigryw eu hunain, a lle y rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg.

- Dywedodd yr Athro Carter mai dim ond y bobl hynny sy'n siarad Cymraeg a allai eu galw eu hunain yn wir Gymry, yn ei farn ef. Dim ond siaradwyr Cymraeg a allai ddeall yn llawn bethau fel mythau a symbolau Cymreig ac felly fod wedi eu trwytho yn y profiad diwylliannol Cymreig. Mynegodd sawl aelod o'r Pwyllgor wrthwynebiad cryf i'r gosodiadau hyn.

**Y Mudiad Ysgolion Meithrin**

Cynrychiolwyr:

Hywel Jones

Rita Jones

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae angen meithrin agweddau cadarnhaol at yr iaith. Dylai'r Cynulliad wneud popeth o fewn ei allu i dynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd.

- Un o'r prif ffyrdd o ddatblygu a hybu'r iaith fyddai creu adeiladwaith sy'n galluogi cydweithredu strategol rhwng asiantaethau yn lleol, sirol, a chenedlaethol. Roedd y Mudiad Ysgolion Meithrin o blaid sefydlu gweithgor cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn cynnwys sefydliadau fel Mentrau Iaith Cymru, Merched y Wawr, y Mudiad Ysgolion Meithrin a CYD. Byddai ffurfio gr•p o'r fath yn sicrhau gweithredu strategaeth a oedd yn gyson ac effeithiol ledled Cymru.

- Mae angen sicrhau y datblygir yr iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth a chreu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Dylai adnoddau priodol fod ar gael i sefydliadau fel y gall hyn ddigwydd.

- Dylid creu cynlluniau i helpu cartrefi cymysg eu hiaith ac i gynghori cymunedau lleol yngl•n â sut i gefnogi cartrefi a oedd yn Gymraeg yn bennaf.

- Mae angen cefnogaeth gyson gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau llwyddiant unrhyw strategaethau hirdymor. Byddai'n haws i sefydliadau gynllunio ar gyfer yr hirdymor petai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnig cyllid am dair blynedd, fel y gwna adrannau eraill o'r Cynulliad.

- Mae'r drefn bresennol o 22 awdurdod lleol yn rhwystro siroedd rhag gallu cynnig cymorth arbenigol i'r Gymraeg. Byddai dychwelyd i'r hen drefn o wyth sir yn fwy buddiol o ran datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob sir.

**CYTÛN (Churches Together in Wales)**

Cynrychiolydd:

Y Parchedig Aled Edwards

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae nifer o eglwysi gan gynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) wedi gofyn am Ddeddf Iaith Newydd a fyddai'n gwneud y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru. Yn arbennig, teimla EBC y dylai'r gyfundrefn farnwrol yng Nghymru fod yn gwbl ddwyieithog.

- Mae rhai eglwysi, yn arbennig EBC ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, am i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu Comisiwn annibynnol i edrych ar effaith economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr argyfwng yn y cymunedau Cymraeg.

- Ym Medi 2001, galwodd Archesgob Cymru am sefydlu Comisiwn Brenhinol i drafod dyfodol ardaloedd gwledig yn arbennig.

- Mae nifer o enwadau wedi galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i weithredu i hyrwyddo gallu pobl leol i adeiladu, rhentu, prynu ac addasu tai lleol.

**Merched y Wawr**

Cynrychiolwyr:

Tegwen Morris

Catrin Stevens

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae Merched y Wawr yn cynrychioli 7,000 o ferched ledled Cymru. Mae'r 274 o ganghennau lleol a chlybiau Gwawr yn cynnal tua 3,000 o gyfarfodydd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae'r mudiad yn rhannu gweledigaeth y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog. Mae cefnogi'r Gymraeg fel iaith i'r teulu a'r gymuned wrth galon strategaeth a chenhadaeth y mudiad.

- Mewn blynyddoedd diweddar, mae aelodaeth Merched y Wawr wedi lleihau peth yn y cadarnleoedd Cymraeg. Galwodd cyfarfod cyffredinol blynyddol y mudiad ar y Cynulliad i sefydlu comisiwn annibynnol i edrych ar y problemau a wynebai'r cymunedau gwledig yn y cadarnleoedd.

- Mae Merched y Wawr yn pwysleisio pwysigrwydd y gwirfoddolwr ym mywyd y gymuned ac nid yw'n credu bod dyddiau gwirfoddoli wedi dod i ben.

- Cred y mudiad yn gryf y dylai cyrff fel banciau a chymdeithasau adeiladu orfod darparu gwasanaeth dwyieithog.

- Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd Merched y Wawr yn lawnsio ymgyrch i annog y merched hynny sy'n llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg, i ddefnyddio'r iaith yn ystod ei gyfarfodydd.

- Mae canghennau rhanbarthol a lleol yn helpu dysgwyr y Gymraeg yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ond mae angen rhagor o arian ar gyfer dysgu'r Gymraeg i oedolion ac mae angen mawr am greu partneriaethau â sefydliadau eraill yn lleol.

- Fel y Mudiad Ysgolion Meithrin, dywedodd Merched y Wawr y byddai'n haws i fudiadau/ sefydliadau gynllunio ar gyfer yr hirdymor pe gallai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynnig cyllid am dair blynedd ar y tro.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb â chynrychiolwyr y Mudiad Ysgolion Meithrin, Cytûn a Merched y Wawr:

- Wrth ateb cwestiwn yn holi a oedd y Mudiad Ysgolion Meithrin wedi costio ei gynigion i ffurfio gweithgor cenedlaethol, dywedodd Hywel Jones na chyfrifwyd y costau'n fanwl. Rhagwelai na fyddai cymaint â hynny o gostau ychwanegol ac mai darparu cyngor arbenigol i'r gweithgor fyddai rhan helaethaf y gost. Byddai gweithgor cenedlaethol yn dwyn ynghyd yr holl sefydliadau a oedd â diddordeb â'r lleiafswm o adnoddau ychwanegol.

- Wrth ateb cwestiwn yngl•n â throsglwyddo iaith o'r plentyn i'r rhiant, dywedodd Mr Jones fod hyn yn digwydd eisoes. Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhedeg cynllun 'Cymraeg i'r teulu' lle caiff rhieni eu hannog i gefnogi datblygiad ieithyddol y plentyn gartref. Cytunodd i roi ffigurau i'r Pwyllgor yngl•n â'r niferoedd o blant a oedd yn manteisio ar ddarpariaeth feithrin Gymraeg fesul sir.

- O ran cyfle cyfartal dywedodd Mr Jones fod yna gynlluniau atgyfeirio ym mhob sir lle caiff plant sydd ag anghenion addysgol arbennig gyfle i ymuno â grwpiau meithrin Cymraeg. Mae darpariaeth feithrin ei hun yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid a disgwylir yn eiddgar am gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

- Cytunai Mr Jones fod marchnata'r Gymraeg yn bwysig a bod angen targedu penodol a strategaethau i hybu'r iaith ymhlith newydd-ddyfodiaid.

- Daeth y sesiwn i ben â chyflwynwyr ac aelodau o’r Pwyllgor yn gofyn i’r Gweinidog edrych eto ar bosibilrwydd gosod mudiadau fel y Mudiad Ysgolion Meithrin a Merched y Wawr ar gynlluniau cyllido tair-blynedd.

**Sesiwn ficroffon agored**

Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd Stephen Curry y dylai pob arwydd yng Nghymru fod yn ddwyieithog a bod yna gryn gostau yn nhermau anghytgord cymdeithasol o beidio â gwneud hyn. Teimlai fod y ddarpariaeth arwyddion dwyieithog yn Abertawe yn arbennig o wael. Wrth ymateb, dywedodd Mr Bob Cuthill o Gyngor Dinas a Sir Abertawe fod gan y Cyngor bolisi ers cryn amser o ddarparu arwyddion ffordd dwyieithog. Rhoddir arwyddion dwyieithog ar bob adeilad newydd yn Abertawe bellach, ac mae adeiladau h•n fel Neuadd y Ddinas yn cael arwyddion newydd yn raddol.

- Ategodd y Cynghorydd Phil Bevan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yr alwad ar i’r Mudiad Ysgolion Meithrin gael cyllid tair-blynedd.

- Galwodd aelod o’r gynulleidfa ar y Cynulliad i gefnogi Deddf Iaith Gymraeg newydd a fyddai'n cynnwys y sector preifat. Ychwanegodd ei bod yn anodd iawn derbyn gwasanaeth Cymraeg yn ardal Abertawe. Galwodd hefyd am sefydlu ail sianel radio Gymraeg.

**<u>Eitem 2: Datganiad gan y Gweinidog ar y Gyllideb</u>**

Gosododd y Gweinidog adroddiad cryno ar y gyllideb ddrafft gerbron (fe’i cyplysir fel atodiad i’r cofnodion hyn). Cyflwynir papur ffurfiol i’r Pwyllgor ar y gyllideb yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd. Dywedodd y Gweinidog y bydd y gyllideb gyffredinol ar gyfer Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg am y flwyddyn nesaf yn cael ei chynyddu i £71.6 miliwn, gwir gynnydd o 11 y cant a’r cynnydd canrannol uchaf dros ben y llinell sylfaen i unrhyw bortffolio yn y Cabinet.

Nodwyd y sylwadau byr canlynol:

- Gofynnodd yr aelodau i’r Gweinidog beth fyddai’r goblygiadau i’r llinell gyllideb petai costau Canolfan Mileniwm Cymru yn amrywio o 10 i 20%.

- Gofynnodd yr Aelodau am esboniad manwl ynghylch sut y byddai’r prosiectau a nodwyd yn llythyr blaenoriaethau cyllideb y Pwyllgor ar 24 Gorffennaf yn cael eu cefnogi.

- Gofynnodd un aelod i’r Gweinidog ystyried symud cyfrifoldeb dros weithgareddau

CADW i’r portffolio Diwylliant.

- Mynegwyd peth syndod bod cyllideb Cyngor Llyfrau Cymru wedi ei chynyddu ac nad oedd casgliadau'r gweithgor a fu’n edrych ar weithgareddau’r Cyngor wedi dod gerbron y Pwyllgor.

Cytunodd y Gweinidog y byddai’n rhoi manylion llawn am yr holl bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 3: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 a 19 Gorffennaf 2001**

Cytunwyd i dderbyn y rhain heb newid.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2001**

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT – 24 HYDREF 2001**

**CYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER 2002-05**

**Adroddiad Cryno gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**

Byddaf yn cyflwyno papur ffurfiol i'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft, fel y gall aelodau drafod fy nghynigion yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 7 Tachwedd.

Yn y cyfamser, roeddwn yn credu y byddai'n ddefnyddiol rhoi syniad cyffredinol i'r aelodau o setliad y gyllideb.

Bydd y gyllideb gyffredinol ar gyfer Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynyddu i £71.6 miliwn. Mae hyn yn gynnydd mewn gwir dermau o 11 y cant. Dyma'r cynnydd canrannol uchaf dros ben y llinell sylfaen i unrhyw bortffolio yn y Cabinet, ac rwyf o'r farn ei fod yn ganlyniad rhagorol.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi rhai o nodweddion pwysicaf y gyllideb ddrafft. Bydd fy mhapur ar gyfer cyfarfod 7 Tachwedd yn rhoi manylion llawnach.

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

Rydym wedi rhoi cyllid ychwanegol i'r Amgueddfa Genedlaethol fel y gall barhau â'r polisi mynediad am ddim – polisi sydd wedi arwain at gynnydd o 90% yn niferoedd yr ymwelwyr.

Er nad yw hynny'n rhan o'r setliad hwn, byddwn yn trefnu bod £6 miliwn ar gael i gefnogi Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Rydym yn rhoi arian ychwanegol i'r Llyfrgell Genedlaethol i dalu costau cynnal y Ganolfan Ymwelwyr newydd a chyffrous.

Rydym hefyd yn defnyddio arian nas gwariwyd i alluogi’r Llyfrgell i gwblhau adeiladu’r Ganolfan Ymwelwyr, ac i sicrhau bod yr holl offer sydd ei angen ynddi.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Rwyf wedi sicrhau cynnydd o £2.7 miliwn i gyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru y flwyddyn nesaf.

Mae hyn yn adlewyrchu’r flaenoriaeth y gofynnodd y Pwyllgor imi ei rhoi i’r celfyddydau. Bydd y setliad yn galluogi Cyngor y Celfyddydau i ddechrau’n fuan ar y gwaith o wireddu fy Strategaeth Ddiwylliant. Bydd yn ein galluogi i greu sylfeini ariannol diogel i Opera Genedlaethol Cymru a diogelu ei rhaglen deithio yn y dyfodol. Bydd y ddarpariaeth ychwanegol yn galluogi’r Cyngor i wneud llawer mwy i bobl ifanc yn y celfyddydau; i gynyddu eu cefnogaeth i artistiaid unigol; ac i ystyried y prosiectau unigol y mae’r Pwyllgor yn eu ffafrio.

Bydd hefyd yn ein galluogi i wireddu ein Hymrwymiad i’r Bartneriaeth i ddatblygu gwefan gelfyddydau.

Rwyf wedi neilltuo arian, o’r ddarpariaeth nas gwariwyd, tuag at Sefydliad Theatr Ryngwladol.

**Canolfan Mileniwm Cymru**

Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid yn ei haraith ar y gyllideb, er nad yw’n rhan o’r gyllideb hon, fod y ffrwd gyllido ar gyfer y prosiect hwn wedi ei neilltuo.

**Cyngor Chwaraeon Cymru**

Rydym yn defnyddio arian nas gwariwyd i alluogi’r Cyngor Chwaraeon i ddechrau ar ddatblygiadau cyffrous yn 2002-03. O ganlyniad, byddant yn gallu cychwyn ar gynllun datblygu golff newydd, gan ganolbwyntio ar golff i bawb â phwyslais arbennig ar annog menywod a merched i ddechrau chwarae’r gêm.

Byddwn hefyd yn rhoi cymorth i’r Cyngor Chwaraeon i roi hwb i’w Gynllun Sportsmatch; ac i roi cymorth ariannol i gystadleuwyr amatur pan fyddant yn cynrychioli Cymru yn eu campau.

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Rwy'n ychwanegu £200,000 at linell sylfaen Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i lacio'r pwysau ar ei bil cyflogau a diweddaru ei offer TG. Bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd i sianelu cyllid ychwanegol i ysgogi defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Rydym hefyd yn defnyddio tanwariant o £250,000 i alluogi Urdd Gobaith Cymru i adeiladu llefydd aros newydd yng Nglan-llyn.

**Celfyddydau Eraill a Llyfrgelloedd**

Mae'r Is Gr•p Gwariant hwn yn cwmpasu'r cyllidebau ar gyfer y Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd; Undeb Gwyddbwyll Cymru; Cyngor Amgueddfeydd Cymru; Celfyddyd ar gyfer Pensaernïaeth; a Chyngor Llyfrau Cymru.

Rwy'n darparu, am y tro cyntaf, ar gyfer cyllido Culture Cymru On-Line, fel yr argymhellwyd gan Cymru'n Creu, er mwyn datblygu presenoldeb sylweddol ar-lein i ddiwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru.

Rwy'n darparu adnoddau ychwanegol i'r Cyngor Amgueddfeydd, i'w galluogi i wella eu hoffer TGCh; ac i'w galluogi i gydweithio â'r Amgueddfa Genedlaethol ar ddangos ei chasgliadau'n lleol.

Rwy'n darparu £150,000 i'r Cyngor Llyfrau i gymryd lle cyllid awdurdodau lleol, gan symleiddio eu trefniadau ariannol. Rwyf hefyd yn rhoi cyllid ychwanegol iddynt i hyrwyddo llyfrau o Gymru dramor.

Rwy'n darparu arian am y tro cyntaf i alluogi'r Llyfrgell Genedlaethol i hwyluso a chydlynu rhoi Rhwydwaith TGCh y Bobl ar waith ym mhob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru.

Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid yn ei haraith ar y gyllideb ein bod wedi ymrwymo i ddatblygu Cronfa Ffilm, er nad yw'r ffigurau'n ymddangos yn y gyllideb a gyhoeddwyd, ac y byddwn yn trefnu bod arian ar gael yn ôl yr angen.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Rwy’n rhoi adnoddau ychwanegol i’r Comisiwn Brenhinol i’w alluogi i fwrw ymlaen â’i strategaeth TG, gan sicrhau bod y Gofrestr Genedlaethol o Gofadeiliau ar gael yn ehangach, ac i ganiatáu ar gyfer peth atgyweirio hanfodol i’w bencadlys yn Aberystwyth.

Credaf fod hwn yn setliad da i’r portffolio hwn ac edrychaf ymlaen at ei drafod yn fanwl ag aelodau'r Pwyllgor pan fyddwn yn cyfarfod ar 7 Tachwedd.

**Jenny Randerson AC**

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

24 Hydref 2001